**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Rheolaeth | 597 | 480 | (117) | | (117) | (35) |
| Anabledd Dysgu | 31,080 | 30,666 | (414) | | (414) | 199 |
| Iechyd Meddwl | 6,071 | 6,629 | 558 | | 558 | 607 |
| Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 24,516 | 24,940 | 424 | | 424 | 940 |
| Gofal Cartref | 11,700 | 12,539 | 839 | | 839 | 1,274 |
| Anabledd Corff | 3,652 | 2,699 | (953) | | (953) | (1,070) |
| Taliadau Uniongyrchol | 2,194 | 1,978 | (216) | | (216) | (72) |
| Eraill | 3,048 | 3,278 | 230 | | 230 | 209 |
| | 45,110 | 45,434 | 324 | 0 | 324 | 1,281 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **82,858** | **83,209** | **351** | **0** | **351** | **2,052** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (297) | 524 | 821 | | 821 | 911 |
| Gofal Cartref | 1,126 | 1,337 | 211 | | 211 | 93 |
| Eraill | (5) | (7) | (2) | | (2) | 6 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **824** | **1,854** | **1,030** | **0** | **1,030** | **1,010** |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26 | | | | **(1,281)** | (1,281) | 0 |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **83,682** | **85,063** | **1,381** | **(1,281)** | **100** | **3,062** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.1 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26 ymlaen. Gwelwyd gwelliant yn y sefyllfa ariannol o'i gymharu â'r rhagolygon, gyda diffyg cyllidebol o £1.38 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Rheolaeth yr Adran** - trosiant staff a thanwariant ar y gyllideb gyfreithiol, ynghyd â derbyniad grant ac incwm ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn.

**Anabledd Dysgu** - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £400k yn 2025/26. Mae'r pwysau'n parhau ar wasanaethau dydd, cynlluniau cefnogol ac ar y gwasanaeth preswyl yng nghartrefi'r Cyngor. Derbyniad grantiau a llai o bwysau ar lety cefnogol, taliadau uniongyrchol ac ar gartrefi preswyl annibynnol yn ystod y flwyddyn gyda'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

**Iechyd Meddwl -** dyrannwyd £177k o arian ychwanegol i'r maes yn 2025/26, gwelwyd diffyg cyllidebol o £650k ar yr elfen breswyl a nyrsio yn dilyn cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer gydag un ar ddeg o achosion newydd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae cynlluniau cefnogol a llety cefnogol yn tanwario ac felly'n lleihau'r gorwariant a adroddir. Mae'r maes iechyd meddwl yn destun bid £1.2 miliwn ar gyfer 2026/27.

**Pobl Hŷn** - dyrannwyd £1.5 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r maes ar gyfer 2025/26, gyda £1.2 miliwn ohono i Ofal Cartref. Bu lleihad yn y diffyg cyllidebol i £324k erbyn diwedd y flwyddyn, gyda grantiau ychwanegol a gwaith sicrhau effeithlonrwydd taliadau uniongyrchol yn cynorthwyo'r darlun. Ym mhreswyl a nyrsio, cynnydd graddol yn y defnydd o gartrefi mewnol a llai o gartrefi preifat, ynghyd â chynnydd mewn cyfraniadau gan gleientiaid, yn lleihau'r pwysau. Bu gwelliant hefyd yng ngofal cartref, gyda lleihad yn y costau i £839k uwchlaw'r gyllideb ar yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael, serch hyn, y rhestrau aros yn parhau i fod yn uchel am ofal cartref. Yn y maes anabledd corff, llai o alw am ofal cartref yn parhau. Yn 'Eraill', pwysau cynyddol a chynlluniau arbedion sydd eto i'w gwireddu.

**Gwasanaethau Darparu** - gorwariant staff yng ngofal preswyl gan gynnwys £501k ar ddefnydd o staff asiantaeth. Cyllideb ychwanegol o filiwn wedi ei fuddsoddi yn barhaol yng ngofal cartref yn 2025/26, serch hynny mae costau staff uwchlaw'r gyllideb yn parhau, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel. Mae bid parhaol o £464k wedi ei ddyrannu i ofal preswyl mewnol ar gyfer 2026/27.

**Arbedion** - o ran sefyllfa gwireddu arbedion yr adran, er bod cynnydd wedi bod mewn gwireddu arbedion yn ystod y flwyddyn mae gwerth bron i £1.5 miliwn o arbedion yn parhau ar ôl i'w gwireddu ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

**Argymhellir** fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £1.281 miliwn i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

Atodiad 2

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 705 | 705 | 0 | | 0 | 89 |
| Gweithredol | 3,070 | 3,548 | 478 | | 478 | 351 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 7,050 | 9,061 | 2,011 | | 2,011 | 683 |
| Cartrefi Grwpiau Bychan | 76 | 156 | 80 | | 80 | 29 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,755 | 1,617 | (138) | | (138) | (271) |
| Maethu Mewnol | 3,120 | 3,215 | 95 | | 95 | 125 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 2,178 | 2,419 | 241 | | 241 | 191 |
| | 14,179 | 16,468 | 2,289 | 0 | 2,289 | 757 |
| Ôl-16 | 1,778 | 2,215 | 437 | | 437 | 204 |
| Gwasanaeth Derwen | 3,655 | 4,098 | 443 | | 443 | 533 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 262 | 251 | (11) | | (11) | (5) |
| Blynyddoedd Cynnar | 147 | (39) | (186) | | (186) | (174) |
| Uned Datblygu'r Gweithlu | 308 | 308 | 0 | | 0 | 0 |
| Eraill | 2,513 | 2,459 | (54) | | (54) | 101 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26 | | | 0 | (3,296) | (3,296) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **26,617** | **30,013** | **3,396** | **(3,296)** | **100** | **1,856** |

## Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £2.175 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26. Ar ddiwedd y flwyddyn adroddir ar ddiffyg cyllidebol o £3.4 miliwn gan yr adran.

**Rheolaeth** - costau staffio ychwanegol un tro ond sydd yn cael ei wrthbwyso gan ddefnydd o grantiau tuag at sefydlu system gwybodaeth.

**Gweithredol** - er bod adnodd ychwanegol parhaol gwerth £365k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae'r tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes. Mae'r maes cynlluniau cefnogol wedi derbyn bid gwerth £200k yn 2026/27 i gyfarch y pwysau.

**Lleoliadau** - gwelwyd un ar ddeg achos newydd lleoliadau all-sirol ers yr adolygiad diwethaf gan gynnwys achosion eithriadol a lleoliadau heb gofrestriad, sydd yn rhai llawer mwy costus. O ganlyniad gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 37 (34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), gyda chost gyfartalog y lleoliadau bellach yn £253k.

Gwelwyd chwe achos newydd ers yr adolygiad diwethaf yn Maethu drwy Asiant ond bu gostyngiad yn y niferoedd Maethu Mewnol. Gwelwyd lleihad yn yr incwm gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth. Yng nghefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar y gyllideb gweithwyr cefnogol ac ar y gwasanaeth mabwysiadu gogledd Cymru.

**Cartrefi Grwpiau Bychan** - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gyda dau gartref bellach yn weithredol a'r trydydd tŷ yn dod yn weithredol yn ystod 2026/27. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni.

**Ôl-16** - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn dilyn i ddau achos eithriadol gael eu trosglwyddo o'r gwasanaeth all-sirol yn ystod y flwyddyn. Pwysau hefyd ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant.

**Derwen** - i ymateb i'r tueddiad gorwariant bu i Derwen dderbyn dyraniad adnoddau parhaol ychwanegol o £1 miliwn ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r pwysau yn parhau gyda gorwariant yn £443k ar ddiwedd y flwyddyn ar weithwyr cynlluniau cefnogol, cefnogaeth arbenigol ac ar yr Uned Egwyl Fer. Mae bid pellach gwerth £175k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2026/27.

**Blynyddoedd Cynnar** - trosiant staff a grantiau cynyddol ar gael i gyllido gwariant craidd wedi arwain at danwariant.

**Eraill** - yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn derbyniad cyllid ychwanegol gan y Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal, ond yn cynnwys gorwariant ar ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar y gwasanaeth tu allan i oriau.

**Argymhellir** fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3.296 miliwn i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cefnogaeth a Chomisiynu | 1,068 | 1,046 | (22) | | (22) | (82) |
| Incwm a Chyllid | 1,479 | 1,422 | (57) | | (57) | (38) |
| Gwasanaethau Ataliol | 279 | 259 | (20) | | (20) | (24) |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | **2,826** | **2,727** | **(99)** | **0** | **(99)** | **(144)** |

## Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

**Cefnogaeth a Chomisiynu** - arbediad o ganlyniad i benderfyniad ar y cyd ar lefel gogledd Cymru i gwtogi lefel cyfraniad i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Yn ychwanegol i hyn, defnydd o grantiau yn erbyn costau yn cyfrannu at y tanwariant a adroddir.

**Incwm a Chyllid** - cyfuniad o danwariant ar gostau staff mewn paratoad ar gyfer ail-strwythuro, ynghyd â derbyniad grant tuag at amser staff ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Am gyfnod bydd dwy system wybodaeth gofal yn cyd-redeg.

**Gwasanaeth Ataliol** - derbyniad grant ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ataliol yn golygu bod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn dilyn y sefyllfa ffafriol ar holl benawdau'r Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal, sydd yn bennaf o ganlyniad i dderbyniad grant, mae trosglwyddiad gwerth £67k ynghyd â arall-gyfeirio bid gwerth £90k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r Adran Plant a gefnogir gan y gwasanaeth i gynorthwyo efo'i sefyllfa ariannol eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Addysg** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,378 | 2,431 | 53 | | 53 | 54 |
| Ysgolion Datganoledig | 104,767 | 104,767 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (2,696) | (2,751) | (55) | | (55) | (46) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 8,186 | 8,186 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaeth Atodol | 915 | 662 | (253) | | (253) | (73) |
| Eraill | 727 | 836 | 109 | | 109 | 68 |
| | 9,828 | 9,684 | (144) | 0 | (144) | (5) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,514 | 5,636 | 122 | | 122 | (16) |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 880 | 880 | 0 | | 0 | (2) |
| **Cyfanswm Addysg** | **120,671** | **120,647** | **(24)** | **0** | **(24)** | **(15)** |

## Addysg

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth -** gwariant un tro ar weithredu system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion a hefyd ar ffioedd ymgynghorwyr.

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion** - cyfnod trosiannol i'r gwasanaeth newydd gyda swyddi gwag, derbyniad incwm a grantiau ychwanegol, ond fod pwysau sylweddol ar y gyllideb cyfundrefn drochi.

**Cludiant** - yn dilyn gorwariant sylweddol ar gludiant dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £384k erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd lleihad mewn costau a derbyniad grantiau ychwanegol, felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - derbyniad incwm grant uwch erbyn diwedd y flwyddyn ar gyfer cinio ysgol am ddim i ysgolion cynradd. Ond, gorwariant ar gostau staff oherwydd bod salwch yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn gorwario £71k o ganlyniad i gyfuniad o gostau staff uwch a diffyg incwm.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - cynnydd mewn costau un tro sydd yn cael ei leihau gan ddefnydd o arian grant a thanwariant ar gyllidebau eraill.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad -** cynnydd mewn costau un tro erbyn diwedd y flwyddyn ynghyd ag amgylchiadau yn ymwneud ag un canolfan penodol, sydd bellach wedi dod i ben, ond yn gyfrifol am orwariant o £53k. Trosiant staff a derbyniad grant yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 403 | 392 | (11) | | (11) | (3) |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 674 | 671 | (3) | | (3) | (2) |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (389) | (288) | 101 | | 101 | 35 |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 1,741 | 2,044 | 303 | (269) | 34 | 91 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | (307) | (311) | (4) | | (4) | 0 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 280 | 280 | 0 | | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,673 | 1,644 | (29) | | (29) | (35) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 1,033 | 1,042 | 9 | | 9 | 14 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 49 | 0 | (49) | | (49) | (49) |
| Defnydd o Gronfa Arall yr Adran | 48 | 0 | (48) | | (48) | (49) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,205** | **5,474** | **269** | **(269)** | **0** | **2** |

## Economi a Chymuned

**Rheolaeth -** derbyniad grant ac incwm uwch wedi arwain at danwariant ar y gyllideb graidd.

**Morwrol a Pharciau Gwledig -** dirywiad yn y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn gyda gwariant uwchlaw'r gyllideb wedi cynyddu i £71k yn Noc Fictoria, Caernarfon, a chynnydd mewn gwariant gan yr Harbyrau a thraethau. Gwelwyd fod diffyg incwm yn faterion yn Traethau o £84k a hefyd yn y Parciau Gwledig o £27k. Yn groes i'r tueddiad yma, yr incwm net yn well yn Hafan, Pwllheli ac yn tanwario (£80k).

**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill -** trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £269k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £34k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

**Llyfrgelloedd Gwynedd -** yn dilyn cyfnod trosiannol o ailstrwythuro'r gwasanaeth, mae pob swydd bellach wedi eu llenwi. Bu derbyniad incwm yn uwch gan fod banciau yn gwneud defnydd rheolaidd o ofod yn Llyfrgell Caernarfon.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd -** gorwariant yn bennaf gan fod costau staff uwchlaw'r gyllideb yn faterion yn Storiel £16k ac Amgueddfa Lloyd George £15k tra bod costau eraill yn uwch yn Neuadd Dwyfor £15k. Gwelwyd lleihad mewn gwariant gan y Gwasanaeth Archifau a'r Celfyddydau sydd yn golygu fod y gorwariant a adroddir yn is.

Er mwyn lleihau'r gorwariant a adroddir, mae'r adran yn defnyddio £97k o gronfeydd adrannol.

**Argymhellir** i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach gwerth £269k.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau:** | | | | | | |
| Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 11,618 | 11,936 | 318 | | 318 | 220 |
| Peirianneg | 487 | 411 | (76) | | (76) | (28) |
| Bwrdeistrefol | 5,827 | 6,007 | 180 | | 180 | 381 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 132 | 117 | (15) | | (15) | (81) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26 | | | 0 | (307) | (307) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **18,064** | **18,471** | **407** | **(307)** | **100** | **492** |

## Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd -** er y gwelwyd cynnydd mewn gwireddu arbedion yn y maes, arbedion gwerth £120k yn parhau angen eu cyflawni yn Ffyrdd Sirol. Gwariant uwch erbyn diwedd y flwyddyn ar y rhaglen adeiladwaith ac ar staff a chostau eraill yn Ffyrdd Sirol. Ymhellach i hyn, lleihad yn yr incwm gan asiantaethau allanol ar amrywiol gytundebau.

**Gwasanaethau Peirianneg** - bu i drafodaethau gyda Network Rail yn ymwneud â Phont Abermaw ddod i ben yn ddiweddar gan arwain at wireddu arbediad. Yn ogystal â hyn, tanwariant ar amrywiol benawdau ynghyd â derbyniad incwm uwch.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol -** darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys yr angen i wireddu arbedion gwerth £117k. Er bod y pwysau ar gyllidebau staff glanhau toiledau cyhoeddus yn parhau, bu lleihad erbyn diwedd y flwyddyn. Yn dilyn gwaith diweddar yn yr Amlosgfa gwelwyd lleihad yn y rhagolygon incwm cysylltiedig ond hefyd yn y costau. Mae colledion incwm yn parhau i fod yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Tanwariant pellach ar Orfodaeth Stryd ac ar Dimau Taclus sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Mae bid barhaol gwerth £180k wedi ei ddyrannu i Diroedd agored ar gyfer 2026/27 ymlaen.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd -** er yn rhagori ar incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianneg, nid yw cymaint â'r hyn a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn. Tanwariant ar swyddi gwag a throsiant staff yn y Gwasanaeth Adeiladu.

**Arbedion -** mae gwerth yr arbedion adrannol nad ydynt yn gwireddu yn £317k ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant a adroddir ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod llithro ar y gwireddu, bydd yr adran yn gweithredu camau pendant dros y misoedd nesaf i gyflawni cyfran o'r arbedion.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £307k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 776 | 948 | 172 | | 172 | 158 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 743 | 518 | (225) | | (225) | (1) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 363 | (82) | (445) | | (445) | (362) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (3,008) | (2,534) | 474 | | 474 | 213 |
| Cludiant Integredig | 2,294 | 2,544 | 250 | | 250 | 88 |
| | (351) | (72) | 279 | 0 | 279 | (61) |
| Marchnadoedd | 8 | 13 | 5 | | 5 | 0 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 777 | 795 | 18 | | 18 | 8 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 2,048 | 1,921 | (127) | | (127) | (36) |
| Gwastraff | 14,000 | 15,256 | 1,256 | | 1,256 | 617 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **18,001** | **19,379** | **1,378** | **0** | **1,378** | **685** |
| Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer | | | | **(786)** | **(786)** | |
| Defnydd o Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu | | | | **(470)** | **(470)** | |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26 | | | | **(22)** | **(22)** | |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **(1,278)** | **100** | |

## Amgylchedd

**Rheolaeth yr Adran -** oediad mewn gwireddu gwerth £150k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau cerbydau.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu -** darlun cymysg gan gynnwys, incwm ar geisiadau mawr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan y Grid Cenedlaethol yn golygu fod Cynllunio yn gor-gyflawni ei incwm o £222k tra bod diffyg incwm yn parhau i fod yn faterion yn Pridiannau Tir a Rheolaeth Datblygu. Trosiant staff a swyddi gwag yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol ymhellach.

**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) -** rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant pellach ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio -** yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, roedd disgwyliad fod incwm parcio am wella eleni o'i gymharu â'r diffyg o £826k a adroddwyd yn 2024/25. Bu gwelliant, gyda diffyg incwm o £464k, ond yn is na'r rhagolygon. Swyddi gwag yn cynorthwyo i wella'r sefyllfa a adroddir.

**Cludiant Integredig -** gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cost contractau ac felly nid yw'r grantiau a dderbynnir yn cyfarch yr holl gostau cysylltiedig. Tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gwarchod y Cyhoedd -** swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar gostau cerbydau. Yn gyffredinol, y sefyllfa incwm yn well na'r rhagolygon, gydag incwm safonau masnach yn rhagori'r targed ond incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedau tacsis.

**Gwastraff -** bu i gyllideb ychwanegol o £400k ei ddyrannu ar gyfer 2025/26 ymlaen, ond mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant sydd wedi cynnyddu i £1.26 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Y gwaith o ailstrwythuro a chyflwyno newidiadau i'r maes yn parhau gyda nifer o gamau ynghlwm â'r broses, gyda chamau yn llithro i 2026/27 ac felly nifer o gynlluniau arbedion yn llithro o ganlyniad i'r heriau ail-strwythuro. Gorwariant cynyddol erbyn diwedd y flwyddyn ar gasglu gwastraff ac ailgylchu, gwastraff masnachol, safleoedd trin a throsglwyddo gwastraff ac ar redeg y canolfannau ailgylchu. Nid yw gwerth £830k o gynlluniau arbedion perthnasol i wastraff yn gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn.

**Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer -** arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r arian sydd ar gael sef £786k i'w ddefnyddio yn llwyr i gyllido'r gorwariant yn y maes gwastraff.

**Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu -** derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Mae £470k i'w ddefnyddio yn 2025/26 i gyfarch y diffyg gan y gwasanaeth gwastraff gyda'r gweddill yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y maes gwastraff.

**Arbedion -** mae gwerth £1.27 miliwn o arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu gan yr adran ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant.

**Argymhellir** fod y gorwariant o £1.256 miliwn gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu. Ymhellach i hyn, fod yr Adran Amgylchedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £22k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 799 | 583 | (216) | | (216) | (192) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 6,184 | 6,464 | 280 | | 280 | 531 |
| Tai Sector Breifat | 469 | 486 | 17 | | 17 | (30) |
| Eraill | 423 | 299 | (124) | | (124) | (97) |
| | 7,076 | 7,249 | 173 | 0 | 173 | 404 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 2,728 | 2,750 | 22 | | 22 | 11 |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 9 | 10 | 1 | | 1 | 25 |
| | 2,737 | 2,760 | 23 | 0 | 23 | 36 |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **10,612** | **10,592** | **(20)** | **0** | **(20)** | **248** |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26 - dyraniad bid un-tro i Lety Argyfwng 2026/27 | | | | **(800)** | | |

| | |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Corfforaethol - llithriad | (1,087) |
| Trosglwyddo i Gronfa Cynnal a Chadw ar ddiwedd y flwyddyn | **1,087** |
| **Cynnal a Chadw Corfforaethol Net** | **0** |

## Tai ac Eiddo

| |
|---|
| **Rheolaeth -** tanwariant ar gostau staff gan fod ail strwythuro ar y gweill, ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.<br><br>**Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda gwariant ar y maes yn £6.1 miliwn eleni, sydd yn gyson â gwariant 2024/25. Mae cyllideb ychwanegol o £4.2 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng ynghyd â chyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau 2025/26. Gwelwyd costau uwch i symud a storio eiddo personol aelwydydd sy'n derbyn llety argyfwng. Mae cyfuniad o leihad yn y niferoedd sydd mewn llety argyfwng a hefyd fod pris y noson rhai darparwyr wedi eu negodi yn is, yn golygu fod lleihad yn y pwysau o gymharu â'r rhagolygon. Yn ychwanegol i hyn, gwelwyd cynnydd yn ystod y flwyddyn mewn costau lesu tai preifat.<br><br>**Digartrefedd 2026/27** - yn dilyn adolygiad o'r gwariant ar ddiwedd y flwyddyn, awgrymir y dylid dyrannu bid un tro o hyd at £800k i gynorthwyo gyda'r pwysau ar lety argyfwng yn 2026/27.<br><br>**Tai Sector Breifat** - yn groes i'r rhagolygon yn ystod y flwyddyn, diffyg ar ffioedd tai â nifer o breswylwyr ac ar incwm grant cyfleusterau i'r anabl. Gwelwyd hefyd gostau uwch ynghlwm ag ymestyn y Cynllun Cartrefi Gwag Cenedlaethol, ond fod trosiant staff yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.<br><br>**Gwasanaethau Tai, Eraill** - tanwariant ar gostau staff ac ar nifer o benawdau amrywiol ynghyd â defnydd pellach o grant i gyllido gwariant.<br><br>**Gwasanaethau Eiddo** - pwysau cynyddol ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan drosiant staff.<br><br>**Gofalu, Arlwyo a Glanhau** - y gorwariant ar gostau nwyddau glanhau bellach yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd mewn incwm ar lanhau a gofalu.<br><br>**Cynnal a Chadw Corfforaethol** - bu i'r maes Addysg dderbyn grant cynnal a chadw gan y Llywodraeth gwerth £2.4 miliwn yn ystod y flwyddyn, sydd yn golygu bod llithriad o £1.1 miliwn ar gyllideb graidd cynnal a chadw, sydd wedi ei drosglwyddo i gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer dibenion cynnal a chadw. |
| **Argymhellir** fod yr Adran Tai ac Eiddo yn derbyn dyraniad ariannol un-tro o hyd at £800k i gyllido'r pwysau ar y gwasanaeth llety argyfwng yn 2026/27. |

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 3,194 | 3,155 | (39) | | (39) | (14) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 9,166 | 9,128 | (38) | | (38) | (13) |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 8,631 | 8,611 | (20) | | (20) | (6) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **20,991** | **20,894** | **(97)** | **0** | **(97)** | **(33)** |

## Adrannau Canolog

**Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** tanwariant ar staff a rhagori ar incwm mewn gwahanol feysydd, bu modd ariannu costau amrywiol un-tro o fewn y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** cyfuniad o swyddi gwag a denu incwm a grantiau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ond y pwysau yn parhau ar systemau amrywiol ac ar gostau meddalwedd yr adran, gan gynnwys ar system prosesu incwm gan gwsmeriaid a thrigolion Gwynedd.

**Gwasanaethau Corfforaethol -** trosiant staff, lleihad mewn gwariant ac incwm ychwanegol ym misoedd olaf y flwyddyn. Gwelwyd sefyllfa gytbwys gan yr Argraffdy sydd yn welliant o'r rhagolygon yn ystod y flwyddyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb 2025/26 | Sefyllfa 2025/26 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Premiwm Treth Cyngor | * | * | (914) | 914 | 0 | (871) |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | 14 | (14) | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 125 | (125) | 0 | 0 |
| Darpariaeth Arbedion | * | * | (1,153) | 1,153 | 0 | 0 |
| Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau | * | * | (404) | 404 | 0 | 0 |
| Ad-daliad Cronfa Bensiwn perthnasol i GwE | * | * | (908) | 908 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (475) | 475 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(3,715)** | **3,715** | **0** | **(871)** |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor -** yn ystod 2025/26 cafwyd gwerth £1.583 miliwn o gynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod y gyllideb. O fewn y darlun yma gwelwyd 618 eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor yn ystod y flwyddyn (692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24). Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 283 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23). Rhoddwyd yr arian yma yn y gronfa strategaeth ariannol yn Adolygiad Awst, ac felly mae ar gael i'w dynnu o'r gronfa i gynorthwyo efo sefyllfa ariannol yr adrannau yn 2025/26.

**Premiwm Treth Cyngor -** yn ystod y flwyddyn bu lleihad o 74 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm, sydd yn groes i'r cynnydd o 387 a welwyd y llynedd. Yn 2025/26 mae £7.7 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £4.2 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd ynghyd â £738k o ymrwymiadau eraill. Yn dilyn adolygiad o ddyraniad Premiwm Treth Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae gwerth £914k o bremiwm treth uwchlaw'r gyllideb, gyda'i ddefnydd i'w ystyried gan y Cabinet.

**Gostyngiadau Treth Cyngor -** yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd dros flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, ac felly'r gwariant uwchlaw'r gyllideb.

**Derbyniad Llog Net -** gostyngiad mewn cyfraddau llog wedi arwain at logau islaw'r targed disgwyliedig eleni.

**Darpariaeth Arbedion -** yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud fel ei fod ar gael i ddileu arbedion problemus a phontio gwireddu arbedion.

**Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau -** bu i fidiau gan yr adrannau nad oes defnydd llawn iddynt eleni gael eu dychwelyd.

**Ad-daliad Cronfa Bensiwn perthnasol i GwE -** yn dilyn i'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ddod i ben ar ddiwedd Mai 2025, bu i chwe awdurdod gogledd Cymru dderbyn ad-daliad yn ymwneud â gwarged yn deillio o gyfraniadau pensiwn perthnasol i GwE.

**Eraill -** ni fu'r galw ar y ddarpariaeth mor uchel â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Argymhellir** y dylid cynorthwyo'r Adrannau sydd yn gorwario yn 2025/26, darparu cymorth ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach ar gyfer 2025/26 a chyllido bid i'r maes llety argyfwng ar gyfer 2026/27, gan eu cyllido o'r ffynonellau canlynol:

- fod y gorwariant o £1,256 miliwn gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu
- defnyddio (£2.8 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol
- (£3.174 miliwn) yn cael ei gyllido o Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor

- y tanwariant o (£914k) ar Bremiwm Treth Cyngor yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet

Yn dilyn ymarferiad adolygiad o gronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**, fod y ddau drosglwyddiad canlynol gwerth £8.1 miliwn yn cael eu gwneud o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, sef:

- £6.6 miliwn yn cael ei symud i falansau cyffredinol y Cyngor
- £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa Diogelu Adeiladau.